11.11.2021

Mali Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880 493

Erthygl i'r Wasg Press Release

Cipolwg unigryw tu ôl i ddrysau Sain Ffagan

Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn drysor cenedlaethol, yn gartref i bron i hanner cant o adeiladau hanesyddol, ac yn drysorfa o 400,000 o eitemau – a phob un o'r rheiny â'i stori. Mewn cyfres newydd sbon ar S4C, cawn gipolwg ar y llafur cariad sydd ynghlwm â gwarchod yr adeiladau hynafol, gerddi crand, a chasgliadau di-ri.

Bydd **Sain Ffagan** yn cynnig mynediad i bob rhan o'r safle, gan rannu rhai o'r cyfrinachau tu ôl i'n trysorau traddodiadol a chyfoes.

Ond amgueddfa'r bobl ydy hon yn ei hanfod. A'r bobl sy'n gweithio yn yr amgueddfa sy'n gyfrifol am ddiogelu'r gorffennol ar gyfer y dyfodol.

Mae Goronwy Jones wedi bod yn gwarchod adeiladau Sain Ffagan ers dros chwarter canrif: "Mae'r gofalwyr sydd wedi bod yma ers blynyddoedd wedi codi lot o wybodaeth lan ac yn gallu rhannu hwnnw gyda'r cyhoedd."

"Dwi jyst yn dwlu dod i Sain Ffagan. Mae'r ffaith bod gen i swydd yn fan hyn yn deimlad o falchder bod fi'n gallu cyfleu hanes Cymru yn fy ffordd fach fy hunan i'r cyhoedd, i bawb sy'n gofyn cwestiynau. 'Dych chi yn teimlo fel bod chi yn dod â hanes yn fyw," meddai'r gofalwr.

Gyda 600,000 ohonom ni yn ymweld â Sain Ffagan bob blwyddyn, mae'n siŵr bod gan sawl un atgofion o chwilota yn nhai teras Merthyr, eistedd wrth ddesgiau'r hen ysgol, edmygu'r castell â'i erddi hynod, a gweld detholiad o'r casgliad cenedlaethol yn yr oriel.

Ym mhennod gyntaf **Sain Ffagan** fydd i'w gweld ar S4C Nos Fercher 24 Tachwedd, mae eitem newydd yn cyrraedd y casgliad tecstilau sy'n cyffroi Elen Phillips, Prif Guradur Hanes Cyfoes a Chymunedol yr amgueddfa: bag drudfawr gan dŷ ffasiwn adnabyddus.

Cawn weld un o gwiltiau enwocaf y casgliad a wnaed gan deiliwr o Wrecsam rhwng 1842 ac 1852, ac sydd ymhlith y goreuon o'i fath yn y byd.

"Mae 'na bethau yn llechu mewn amgueddfeydd sydd yn aros am eu *fifteen minutes of fame,* fel dywedodd Andy Warhol, ac yn sicr mae'r cwilt yma wedi cael mwy na phymtheg munud o enwogrwydd," esboniodd Elen.

"Cyffro o'r mwyaf. Mi fuodd y cwilt yma yn ysbrydoliaeth ar gyfer y tŷ ffasiwn Alexander McQueen."

Yn ystod Wythnos Ffasiwn Paris y llynedd, ymddangosodd darnau o gasgliad Cymreig Alexander McQueen yn *Vogue*, beibl y byd ffasiwn, ar ôl i ddau ddylunydd ymweld â Sain Ffagan.

"Felly rŵan mae'r bag Alexander McQueen yma yn mynd i fod yn rhan o'r casgliad. Mi fydd o'n atgof parhaol fod yr holl beth wir wedi digwydd," ychwanegodd Elen.

Ymhlith y straeon eraill cawn glywed yn ystod y gyfres mae arddangosfa bwerus cenhedlaeth y Windrush yng Nghymru, y gwaith sy'n cael ei wneud i ail-godi Gwesty'r Vulcan ar y safle, ac ymgais i achub tŵr cloc sy'n 150 mlwydd oed.

Sain Ffagan
Nos Fercher 24 Tachwedd 8.25, S4C
Isdeitlau Saesneg
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C

11.11.2021

Mali Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880 493

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Sharing the secrets of St Fagans

St Fagans National Museum of History is a Welsh treasure, home to almost fifty historical buildings, and a repository of 400,000 items – each one with its own story. In a brand new series on S4C, we see the labour of love involved in conserving the ancient buildings, grand gardens, and countless collections.

Sain Ffagan offers access to all areas, sharing some of the secrets behind our traditional and contemporary treasures.

But this museum has people at its heart. And the people who work at the museum are responsible for protecting the past for the future.

Goronwy Jones has been looking after St Fagans' buildings for over a quarter of a century: "The caretakers who have been here for a number of years have picked up a lot of information and can share that with the public."

"I just love coming to St Fagans. The fact that I've got a job here is something I'm proud of, that I can share the history of Wales in my own little way with visitors, people who ask questions. You feel as if you're bringing history to life," the caretaker said.

With 600,000 visitors to St Fagans every year, many of us have fond memories of peeking into the Merthyr terraced houses, sitting at the desks in the old school, admiring the castle and its magnificent gardens, and exploring curations from the national collection in the gallery.

In the first episode of **Sain Ffagan** on Wednesday 24 November on S4C, an item that Elen Phillips, Principal Curator of Contemporary and Community History at the museum, has been keenly waiting for finally arrives: an expensive handbag from a renowned fashion house.

We get to take a close look at one of the most famous quilts in the textiles collection, made by a tailor from Wrexham between 1842 and 1852, and which is among the best of its kind in the world.

"There are things tucked away in museums just waiting for their fifteen minutes of fame, as Andy Warhol said, and this quilt has certainly had more than fifteen minutes in the limelight," Elen explained.

"Very exciting indeed. This quilt served as inspiration for the Alexander McQueen fashion house."

During Paris Fashion Week last year, pieces from Alexander McQueen's Welsh-inspired collection appeared in *Vogue*, the fashion world's bible, after two designers had visited St Fagans.

"So now, this Alexander McQueen bag will be part of our collection. It will serve as a permanent reminder that the whole thing actually happened," Elen added.

Among the other stories we hear during the series are the evocative exhibition on Wales' Windrush generation, the work done to rebuild the Vulcan Hotel brick by brick, and the attempts to save a 150-year-old clock tower.

Sain Ffagan
Wednesday 24 November 8.25, S4C
English subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Boom Cymru production for S4C